Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Cefn Meiriadog**
**Groesffordd Marli**
**Marli**
**Llanelwy**
**Sir Ddinbych**
**LL22 9DS**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Cefn Meiriadog

Mae Ysgol Cefn Meiriadog wedi ei lleoli ym mhentref Cefn Meiriadog, ger Llanelwy yn Sir Ddinbych. Mae 66 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys chwe disgybl meithrin rhan-amser. Mae gan yr ysgol dri dosbarth oed cymysg.

Saesneg yw prif iaith bron pob un o'r disgyblion. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Dros gyfnod o dair blynedd, tuag 13% o ddisgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ar gyfartaledd, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 18%. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan tuag 18% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sy'n is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Yn dilyn cyfnod o newid o ran arweinyddiaeth a staffio, ymgymerodd y pennaeth presennol â'r swydd yn Ionawr 2020. Yn ystod yr arolygiad, roedd un dosbarth yn cael ei addysgu gan athro dros dro. Cynhaliwyd arolygiad blaenorol yr ysgol ym mis Hydref 2013.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae lles disgyblion yn ganolog i waith Ysgol Cefn Meiriadog. Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar greu cymuned gynhwysfawr mewn amgylchedd hapus. Maent yn mwynhau perthynas waith gadarnhaol â disgyblion, ac yn sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gofalu amdanynt a'u gwerthfawrogi. O ganlyniad, mae disgyblion yn mwynhau dod i'r ysgol, yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth ddatblygu llawer o'u medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae llawer o athrawon yn paratoi ystod ddiddorol o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio ac yn cyflwyno gweithgareddau sy'n herio disgyblion yn gyson ar lefel ddigon uchel, nac yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn ddigon da. Nid yw athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn rhoi digon o gyfleoedd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a'u medrau Cymraeg llafar mewn ystod ddigon eang o dasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinwyr yn nodi cryfderau'r ysgol yn dda ac, ar y cyfan, meysydd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw prosesau monitro a chynlluniau gwella yn ddigon cadarn bob tro i nodi a mynd i'r afael â meysydd pwysig i'w gwella. Mae'r pennaeth sydd newydd ei phenodi yn arweinydd uchel ei chymhelliant ac, yn ystod ei chyfnod byr yn y swydd, bu'n effeithiol iawn o ran nodi meysydd allweddol i'w datblygu. Mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad i hybu gwelliannau yn yr ysgol, sydd o fudd i ddisgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau arweinyddiaeth sefydlog ac effeithiol ar bob lefel i gryfhau gallu'r ysgol i wella

A2 Gwella prosesau olrhain a monitro fel eu bod yn canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion

A3 Herio pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 i wella ac arwain eu dysgu eu hunain er mwyn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Gwella ysgrifennu disgyblion

A5 Darparu cyfleoedd rheolaidd a phwrpasol i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 ddefnyddio eu medrau rhifedd, TGCh a'u medrau Cymraeg llafar ar draws y cwricwlwm

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o ran datblygu eu medrau wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau unigol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy abl yn gwneud cynnydd digon effeithiol bob tro mewn perthynas â'u gallu.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon a'i gilydd. O oedran ifanc, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn bwrpasol yn ystod gweithgareddau a sesiynau chwarae. Maent yn rhannu syniadau'n glir ac yn frwdfrydig ag oedolion a disgyblion eraill, er enghraifft wrth ddisgrifio'r anifeiliaid yn yr ardal chwarae rôl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu'n dda ar y medrau hyn ac yn eu cymhwyso'n bwrpasol i gynorthwyo eu dysgu. Mae bron pob un ohonynt yn awyddus i rannu eu gwaith ac yn defnyddio ystod dda o eirfa, er enghraifft wrth ddisgrifio sut mae hylifau gwahanol yn llifo yn ystod ymchwiliad gwyddonol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn mwynhau darllen ac yn datblygu eu medrau darllen yn dda. Mae disgyblion meithrin a derbyn yn datblygu dealltwriaeth dda o lythrennau a seiniau, ac yn dechrau adeiladu geiriau'n hyderus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r cyfnod sylfaen, maent yn dysgu ystod ddefnyddiol o strategaethau i'w helpu i ddatgodio geiriau anghyfarwydd a darllen â dealltwriaeth. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn darllen testunau cyfarwydd yn rhugl ac yn gywir. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn datblygu hyder fel darllenwyr, ac yn darllen ystod gynyddol o lyfrau â chywirdeb a mynegiant. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer ohonynt yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn dda. Er enghraifft, maent yn dod i gasgliadau ynghylch sut mae cymeriad yn teimlo o'r eirfa mae'r awdur yn ei defnyddio.

Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn llwyddiannus. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n daclus at amrywiaeth o ddibenion. Er enghraifft, maent yn defnyddio geiriau emosiynol i ddisgrifio sut maent yn teimlo pan mae dyn eira'n toddi. Maent yn ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio cysyllteiriau sylfaenol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, ychydig iawn ohonynt sy'n ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn adeiladu'n briodol ar eu medrau darllen mewn ystod addas o arddulliau. Er enghraifft, maent yn defnyddio'r nofel 'Goodnight Mr Tom' fel symbyliad ar gyfer ysgrifennu llythyr fel y cymeriad Willie Beech. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o atalnodau'n gywir, ac mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n daclus ac yn cyflwyno eu gwaith yn ofalus. Fodd bynnag, mae gallu disgyblion i fynegi eu syniadau at ystod eang o ddibenion drwy ysgrifennu'n estynedig yn gyfyngedig.

Yn y cyfnod sylfaen, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Erbyn Blwyddyn 2, mae gan y rhan fwyaf ohonynt fedrau rhif datblygedig ac amgyffrediad cadarn o siâp, cynhwysedd a data. Maent yn casglu data am ffrwythau a llysiau sy'n weddill ar ôl amser byrbryd i greu pictogramau cywir,

ac yn gwneud rhagfynegiadau synhwyrol ynghylch pa ffrwythau sydd orau gan ddisgyblion, yn seiliedig ar eu canfyddiadau. Maent yn cymhwyso eu dealltwriaeth o arian yn dda, er enghraifft wrth werthu cacennau mewn bore coffi i godi arian. Gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 gynnydd da o ran ymarfer eu medrau mewn ystod o fathemateg. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ym Mlwyddyn 3 a 4 yn defnyddio eu medrau rhifedd yn gywir, er enghraifft i gyfrifo cynhwysedd hylifau gwahanol wrth greu diod hud. Erbyn Blwyddyn 6, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'r pedair rheol rhif, ac maent yn eu cymhwyso'n llwyddiannus i ddatrys problemau, er enghraifft wrth drosi unedau imperial yn ddegolion er mwyn pobi cacen gan ddefnyddio rysáit o adeg y rhyfel. Fodd bynnag, mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso ystod gyfyngedig yn unig o fedrau rhifedd a datrys problemau yn briodol mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm.

Yn y cyfnod sylfaen, gwna'r rhan fwyaf o ddisgyblion gynnydd da o ran datblygu eu Cymraeg llafar, ac mae llawer ohonynt yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus fel rhan o'u harferion dosbarth. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn gofyn ac yn ymateb i gwestiynau syml gan ddilyn patrymau sylfaenol, er enghraifft wrth drafod y tywydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod addas o eirfa sylfaenol i ymateb yn briodol i gwestiynau cyfarwydd amdanyn nhw'u hunain. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio eu medrau Cymraeg yn ddigon hyderus ym meysydd eraill y cwricwlwm ac o gwmpas yr ysgol. Mae hyn yn cyfyngu ar y cynnydd a wnânt.

Mae llawer o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio eu medrau TGCh yn fwriadus i ategu eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod addas o gymwysiadau ar lechi cyfrifiadurol i gofnodi eu gweithgareddau a chreu graffiau syml, gan ddefnyddio pecyn trin data. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac yn defnyddio ystod addas o feddalwedd yn gymwys, er enghraifft i gyflwyno eu gwaith ar ddogni bwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn defnyddio TGCh at ystod rhy gul o ddibenion ar draws y cwricwlwm. Ychydig iawn ohonynt sy'n defnyddio TGCh yn effeithiol i drin data neu fodelu sefyllfaoedd, er enghraifft gan ddefnyddio taenlenni.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol ac yn hyderus yn amgylchedd yr ysgol. Maent yn trin ei gilydd ac oedolion â gofal a pharch. Mae cynhesrwydd a chryfder y berthynas waith rhwng disgyblion a staff yn golygu bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, ac yn gwybod beth i'w wneud os ydynt yn poeni neu'n bryderus. Mae bron pob un o'r disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais ac yn foesgar, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwrando'n astud ar eu hathrawon ac yn parchu barn disgyblion eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarnhaol ac yn frwdfrydig tuag at eu dysgu, yn mwynhau'r pynciau maent yn eu hastudio ac yn awyddus i wneud yn dda. Maent yn ymdawelu'n gyflym yn y dosbarth ac yn barod i ddysgu'n ddi-oed. Mae llawer ohonynt yn ddysgwyr gweithgar a brwdfrydig, sy'n cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn cadw at y dasg am gyfnodau estynedig. O oedran ifanc, daw disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn fwyfwy annibynnol yn eu dysgu, ac maent yn dangos dyfalbarhad wrth gwblhau tasgau yn y ddarpariaeth barhaus a darpariaeth wedi'i chyfoethogi. Erbyn

Blwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn dangos chwilfrydedd a'r hyder i roi cynnig ar brofiadau newydd yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ymateb â pharodrwydd i'r cyfleoedd a gânt i benderfynu ar yr hyn yr hoffent ei ddysgu ar ddechrau testunau newydd. Fodd bynnag, dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae medrau disgyblion o ran gwella ac arwain eu dysgu eu hunain. Yn gyffredinol, maent yn dibynnu gormod ar oedolion i gyfarwyddo eu dysgu.

Mae gan bron pob un o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o sut i wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw. Maent yn siarad yn frwdfrydig am sut gwnaeth perfformiad diweddar o 'The Pirates of the Chilli Bean' eu helpu i ddysgu am bwysigrwydd prydau bwyd iach a hylendid bwyd. Maent yn gwneud dewisiadau gwybodus, er enghraifft wrth brynu ffrwythau yn ystod amser chwarae. Mae bron pob un o'r disgyblion yn trafod yn synhwyrol fel mae ymarfer corff yn agwedd bwysig ar gadw'n iach. Mae llawer ohonynt yn cyfranogi'n egnïol yng ngweithgaredd milltir y dydd, ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig yn yr ystod o weithgareddau allgyrsiol y mae'r ysgol yn ei darparu, gan gynnwys chwaraeon, dawns a gymnasteg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu ffitrwydd a lles. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth glir o ddiogelwch ar-lein a sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r rhyngrwyd.

Mae disgyblion yn mwynhau ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, fel dod yn aelodau o grwpiau llais y disgybl yn yr ysgol, ac yn cymryd y cyfrifoldebau hynny o ddifrif. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor ysgol yn cynnig syniadau gwerthfawr o ran sut i wella'r toiledau a chodi arian ar gyfer offer awyr agored. Maent yn falch o'u cyfraniad at weithgareddau codi arian, drwy drefnu boreau coffi a diwrnodau gwisg ffansi ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys yr hosbis lleol a Plant Mewn Angen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob disgybl yn deall pwysigrwydd mynd i'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn meithrin perthynas waith effeithiol â disgyblion ac yn creu amgylchedd cynhyrchiol ar gyfer addysgu a dysgu. Maent yn adnabod eu disgyblion yn dda ac yn rhoi cymorth effeithiol iddynt wrth iddynt weithio a rhyngweithio â'u cyfoedion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion yn benodol.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o ddisgyblion ac yn adeiladu'n dda ar eu dysgu blaenorol. Maent yn cyfateb tasgau'n briodol i allu disgyblion, ac yn sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cymell a'u herio. Maent yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i gynorthwyo dysgu disgyblion. Yn y dosbarthiadau hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, ac maent yn gofyn cwestiynau penagored, fel 'Pam mae dail yn crychu?', yn llwyddiannus i annog disgyblion i feddwl drostyn nhw'u hunain. Mae hyn yn annog chwilfrydedd disgyblion ac yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at brofiadau newydd. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion yr hyder i roi cynnig ar dasgau newydd yn frwdfrydig ac yn annibynnol. Fodd bynnag, ambell waith, lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid oes gan athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ran

cyflawniad disgyblion. Maent yn cyfarwyddo gweithgareddau'n ormodol ac nid ydynt yn addasu'r gwaith i fodloni anghenion disgyblion yn ddigon da. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol, ac nid yw'n darparu digon o her i ddisgyblion, yn enwedig y rhai sy'n fwy abl.

Mae pob un o'r athrawon yn rhannu amcan dysgu'r wers yn briodol â disgyblion, ac mae llawer ohonynt yn nodi'n glir y meini prawf llwyddiant y mae angen i ddisgyblion fod yn ymwybodol ohonynt i gwblhau eu gwaith yn dda. Yn gyffredinol, mae adborth athrawon yn dangos i ddisgyblion beth maent yn ei wneud yn dda a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella, ond nid yw hyn yn gyson ar draws yr ysgol. At ei gilydd, nid yw athrawon yn defnyddio asesu ar gyfer dysgu yn ddigon cyson nac yn ddigon da i annog disgyblion i ddod yn ddysgwyr myfyriol, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae darpariaeth y cyfnod sylfaen wedi ei hymgorffori'n gadarn yn yr ysgol. Mae athrawon yn cynnwys syniadau disgyblion yn llwyddiannus i gynllunio cydbwysedd effeithiol o weithgareddau dan arweiniad staff, a chyfleoedd i ddisgyblion weithio'n annibynnol yn yr ystod o ardaloedd dysgu. O'r cychwyn cyntaf, maent yn darparu tasgau a phrofiadau symbylol sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored yn llwyddiannus ar gyfer tasgau ymarferol, fel adeiladu tai i ailadrodd hanes y tri mochyn bach. Mae hyn yn datblygu medrau datrys problemau a medrau creadigol disgyblion yn llwyddiannus. Gwna staff ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd lleol, er enghraifft drwy fynd â disgyblion am dro gaeafaidd o gwmpas y pentref i chwilio am arwyddion y gaeaf, ac ymweld â fferm leol i fwydo'r ŵyn bach. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn effeithiol ar draws y meysydd dysgu.

Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn darparu ystod o brofiadau dysgu gwerthfawr sy'n bodloni anghenion llawer o ddisgyblion yn effeithiol. Maent yn cynllunio themâu trawsgwricwlaidd diddorol sy'n rhoi sylw addas i bob un o'r pynciau ac yn ymestyn gwybodaeth, medrau a dealltwriaeth llawer o ddisgyblion yn dda. Mae staff yn dechrau cynnig cyfleoedd i ddisgyblion rannu eu syniadau a'u diddordebau ar ddechrau testunau newydd. Fodd bynnag, nid yw cynllunio athrawon yn cynnwys digon o achlysuron i ddisgyblion ddatblygu eu gallu i ysgrifennu'n estynedig yn annibynnol bob tro, na chymhwyso eu medrau rhifedd a TGCh yn gynyddol mewn ystod ddigon eang o dasgau ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu ystod fuddiol o weithgareddau sy'n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru a'r amgylchedd lleol, er enghraifft drwy gymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd ac astudio'r ardal leol. Mae ymweliad preswyl i Ganolfan yr Urdd yng Nghaerdydd yn hybu gwerthfawrogiad disgyblion o ddiwylliant ac economi fodern Cymru, ac yn datblygu eu hunan-barch a'u hannibyniaeth yn dda.

At ei gilydd, mae athrawon yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn briodol. Yn y cyfnod sylfaen, mae disgyblion yn cael eu cyflwyno i'r iaith Gymraeg yn ddyddiol. O ganlyniad, mae llawer ohonynt yn defnyddio ystod addas o eirfa sylfaenol a phatrymau brawddegau yn fwyfwy hyderus fel rhan o arferion y dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae darpariaeth mewn gwersi Cymraeg yn briodol, ond

nid yw athrawon yn sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymarfer eu medrau Cymraeg llafar ym meysydd eraill y cwricwlwm nac o gwmpas yr ysgol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae staff yn creu cymuned ddiogel, hapus a gofalgar sy’n meithrin medrau personol, cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol yn dda. Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd digynnwrf a chroesawgar sy’n cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad disgyblion. Mae’r lefel uchel o ofal a chydweithrediad rhwng staff a disgyblion yn cynorthwyo disgyblion yn effeithiol i ddatblygu eu dealltwriaeth gymdeithasol a moesol. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn ymateb yn sensitif i’w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae’r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi a pharch yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol wedi sefydlu system olrhain briodol i fonitro cynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae staff yn defnyddio’r wybodaeth hon yn fwriadus i hyrwyddo ymddygiad da a phresenoldeb rheolaidd, ac i ddarparu ar gyfer disgyblion y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn cael eu hadnabod yn gynnar, a’u cynorthwyo drwy raglenni ymyrraeth addas sydd wedi eu haddasu i fodloni eu hanghenion unigol. Mae athrawon yn creu proffiliau un-tudalen defnyddiol i bob disgybl ag anghenion addysgol arbennig, ynghyd â chynlluniau addysg unigol o ansawdd da. Maent yn cynnwys targedau penodol ar gyfer gwella sy’n helpu staff i fonitro cynnydd disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn adolygu’r cynlluniau hyn yn rheolaidd gyda rhieni a’u plant, er mwyn cynllunio’n briodol ar gyfer y camau nesaf yn eu dysgu. Mae staff yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau arbenigol, sy’n darparu cymorth ac arweiniad da i fynd i’r afael ag anghenion disgyblion penodol. Mae’r trefniadau hyn yn sicrhau bod disgyblion sy’n cael eu targedu yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’u galluoedd. Fodd bynnag, nid yw staff yn defnyddio’r wybodaeth o’r broses olrhain a monitro yn ddigon effeithiol bob tro i sicrhau bod disgyblion mwy abl yn cyflawni’n uchel.

Mae’r ysgol yn darparu rhaglenni buddiol i gynorthwyo disgyblion sy’n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymdeithasol ac emosiynol. Mae staff yn cynnal holiaduron â phob un o’r disgyblion i fesur eu hunan-barch a’u hymdeimlad cyffredinol o les. Mae aelod staff hyfforddedig yn rhoi rhaglen gymorth ar waith ar gyfer y disgyblion hynny sy’n cael eu nodi. Mae’r ddarpariaeth hon yn cynyddu hunan-barch a hyder disgyblion yn sylweddol, ac yn helpu’r disgyblion sydd wedi eu targedu i ymgysylltu’n effeithiol â bywyd yr ysgol.

Mae’r ysgol yn hybu datblygu cymdeithasol, moesol ac ysbrydol disgyblion yn effeithiol yn ystod gweithredoedd addoli ar y cyd a gwersi. Mae athrawon yn hybu datblygiad diwylliannol disgyblion drwy ystod o weithgareddau cwricwlaidd diddorol. Mae enghreifftiau nodedig yn cynnwys ymweliad preswyl â Chanolfan yr Urdd yng Nghaerdydd, cymryd rhan yn y Jamborî, a myfyrio ar gerddoriaeth o ddiwylliannau gwahanol, a’i chymharu, yng nghyd-destun addoli crefyddol. Mae’r ysgol wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â’r gymuned leol, sy’n cyfoethogi profiadau disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae cysylltiadau cryf â’r eglwys leol, lle cynhaliodd disgyblion y cyfnod sylfaen briodas, yn helpu i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn darparu

cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am yr amgylchedd lleol, er enghraifft drwy ymweld â gwaith trin dŵr lleol i ddysgu sut mae dŵr glân yn cyrraedd eu cartrefi.

Mae'r ysgol yn meithrin perthynas gynhyrchiol â rhieni. Mae rhieni'n gwerthfawrogi'r croeso cynnes a gânt yn yr ysgol. Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau cyfathrebu i roi gwybodaeth ddefnyddiol am faterion beunyddiol a gweithgareddau'r ysgol. Maent yn annog disgyblion i rannu enghreifftiau o'u gwaith â'u teuluoedd drwy gymhwysiad ar-lein. Mae hyn yn galluogi rhieni i weld beth mae eu plentyn wedi ei gyflawni yn yr ysgol. Mae staff yn siarad â rhieni'n rheolaidd am gynnydd a lles eu plant. Mae hyn yn eu galluogi nid yn unig i godi unrhyw bryderon sydd ganddynt, ond hefyd yn sicrhau eu bod yn fwyfwy ymwybodol o'r hyn y gallant ei wneud gartref i gynorthwyo dysgu eu plant.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae athrawon yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am wneud dewisiadau o ran eu ffordd o fyw. Mae hyn yn helpu disgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol o ran eu ffordd o fyw, er enghraifft fel eu bod yn ymwybodol o'r angen i ddod â byrbryd a diod iach i'r ysgol. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod ffrwythau ar gyfer yn ddyddiol drwy gynnal siop ffrwythau yn ystod amser egwyl. Mae staff yn hybu pwysigrwydd ffitrwydd corfforol yn dda drwy ystod fuddiol o glybiau chwaraeon allgyrsiol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Yn ystod y cyfnod estynedig diweddar o ansefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, cynorthwyodd arweinyddiaeth ofalgar a sensitif y pennaeth dros dro i staff gynnal ethos cadarnhaol, ysgol gyfan. Mae ethos cartrefol, cynhwysol a gofalgar yr ysgol yn amlwg ac yn rhan naturiol o'i gwaith. Mae staff yn ymroddedig ac yn weithgar, ac maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd i sicrhau bod lles disgyblion wrth wraidd ei gwaith.

Mae'r pennaeth newydd benodedig yn arweinydd uchel ei chymhelliant sydd â disgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, ei staff, disgyblion a llywodraethwyr. Yn ystod ei chyfnod byr iawn yn y swydd, mae wedi nodi meysydd allweddol i'w datblygu, sy'n canolbwyntio ar wella ansawdd yr addysgu a dysgu drwy sicrhau cysondeb o ran cynllunio, asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae wedi cyfarfod â'r holl staff i egluro disgwyliadau a swydd ddisgrifiadau, dosrannu rolau arweinyddiaeth priodol ar gyfer y cwricwlwm, a chytuno ar brosesau rheoli perfformiad addas. Mae amcanion staff yn cysylltu'n dda â'u hanghenion datblygu unigol a blaenoriaethau cyfredol y cynllun datblygu ysgol. Mae'r holl staff yn dangos ymrwymiad bwriadus i hyrwyddo gwelliannau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i asesu effaith y mentrau hyn ar addysgu a dysgu.

Mae gan yr ysgol brosesau priodol ar waith i werthuso ei pherfformiad a chynllunio ar gyfer gwella. Mae'r broses wedi ei seilio ar ystod addas o arsylwadau dosbarth a data perfformiad disgyblion. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn addas i nodi meysydd priodol i'w gwella, er enghraifft yr angen i wella medrau TGCh a Chymraeg disgyblion. Fodd bynnag, dros amser, ni fu adolygiadau arweinwyr yn

ddigon trylwyr i nodi meysydd pwysig eraill i'w gwella yn ddigon clir, gan gynnwys yr angen i wella ansawdd ysgrifennu disgyblion a'r diffyg her i ddisgyblion mwy abl. Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cyfyngedig yn unig tuag at fynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol o waith a bywyd yr ysgol, ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau'n briodol. Cânt adroddiadau rheolaidd gan arweinwyr yr ysgol, ac mae llywodraethwyr unigol yn ymweld â'r ysgol, er enghraifft i helpu â darllen Cymraeg a chynnal adolygiad o fathemateg. Mae hyn yn rhoi dealltwriaeth addas iddynt o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Fodd bynnag, mae cyfraniad llywodraethwyr at brosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yr ysgol yn gyfyngedig, ac mae hyn yn lleihau eu gallu i herio arweinwyr ynghylch cynnydd disgyblion dros amser.

Mae'r ysgol yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddi yn briodol i ddarparu profiadau dysgu diddorol ac amrywiol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn monitro gwariant yn ofalus ac, o ganlyniad, mae gan yr ysgol gyflenwad da o lyfrau, cyfrifiaduron ac offer addas arall i fodloni anghenion pob disgybl. Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau yn bwrpasol, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i ddarparu cymorth ac ymyrraeth i ddisgyblion sy'n agored i niwed. O ganlyniad, gwna'r disgyblion hyn gynnydd da yn erbyn eu targedau unigol.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle y bo'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth, ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle y bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2020